# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 29 Medi 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

3 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb*

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Beth yw cyfanswm cost y daith 'Mae'r Gymuned yn Cyfri' o amgylch Cymru. (WAQ56510)

***Rhoddwyd ateb ar 12 Hydref 2010***

Mae'r daith 'Mae'r Gymuned yn Cyfri' yn rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystod y gwaith o baratoi'r Gyllideb Ddrafft, i ymgysylltu ag amrywiaeth eang o staff gwasanaethau cyhoeddus a defnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus ledled y rhanbarthau yng Nghymru. Mae ymweliadau wedi'u trefnu o amgylch ymrwymiadau cyfarfod sydd eisoes yn bodoli er mwyn lleihau unrhyw gostau cysylltiedig gymaint â phosibl.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Faint o aelwydydd sydd wedi cael gohebiaeth yn gofyn iddynt gymryd rhan yn yr Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Oedolion yng Nghymru. (WAQ56506)

***Rhoddwyd ateb ar 12 Hydref 2010***

Bydd 5200 o gyfeiriadau yng Nghymru naill ai eisoes wedi cael gohebiaeth, neu'n cael gohebiaeth dros yr wythnosau nesaf, yn gofyn iddynt gymryd rhan yn yr Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Oedolion yng Nghymru.

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**: Faint o gartrefi sy'n cymryd rhan yn yr Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Oedolion yng Nghymru. (WAQ56507)

***Rhoddwyd ateb ar 12 Hydref 2010***

Nod yr Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Oedolion yng Nghymru yw casglu gwybodaeth gan tua 3,000 o oedolion o oedran gweithio. Hyd yma, mae rhyw 2,396 o gyfweliadau ac asesiadau wedi'u cynnal.

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Beth yw cyfanswm cost cynnal yr Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Oedolion yng Nghymru. (WAQ56508)

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Beth yw cyfanswm cost defnyddio'r cwmni ymchwil TNS-BMRB i gynnal yr Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Oedolion yng Nghymru. (WAQ56509)

***Rhoddwyd ateb ar 12 Hydref 2010***

Mae'r Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Oedolion yng Nghymru yn parhau; amcangyfrifir ei fod yn costio tua £858,000 (gan gynnwys TAW).
Dyfarnwyd contract yr Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Oedolion yng Nghymru ym mis Mawrth 2009 i Miller Research UK (Limited), ymgynghoriaeth ymchwil yn y Fenni. Gan fod arolwg o'r maint hwn a'r cwmpas hwn yn gofyn am nifer fawr o ymchwilwyr medrus a phrofiadol, mae Miller Research UK (Limited) wedi cael cymorth TNS-BMRB, sef ymgynghoriaeth ymchwil sy'n arbenigo mewn arolygon cymdeithasol mawr. Miller Research UK (Limited) sy'n gwneud yr holl daliadau i TNS-BMRB mewn perthynas â gwaith ar yr Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Oedolion yng Nghymru yn unol â'r contract sy'n bodoli rhwng TNS-BMRB a Miller Research UK (Limited).

## *Gofyn i’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**David Melding (Canol De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddarparu rhestr o gwmnïau chwaraeon moduro y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi cyllid grant iddynt, gan nodi eu lleoliad a nifer y swyddi a grëwyd. (WAQ56512)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

The table below outlines the position:

| **Company Name** | **Location** | **Job created** |
|---|---|---|
| MCR Racecard Ltd | St David’s | 0[1] |
| West Wales Rally Spares Ltd | Llandysul | 0 |
| Trac Mon | Anglesey | 0 |
| Connaught Engineering | Llanelli | 27 |
| Atech Reid | Treforest | 0 |

1 – A number of the projects are for ‘Specialist’ Single Investment Fund (SIF), the outputs for which do not include the requirement for job creation; some schemes have outputs which are not collected until six months after the project completion date so some of the projects would not have jobs attributed to them at present. Connaught has been offered support under the main SIF scheme and has jobs attributed to it that have actually had payments made and jobs created. Atech Reid has received an offer of main SIF but has not yet had any claims paid.

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effeithiau iechyd posibl o safleoedd tirlenwi yng Nghymru. (WAQ56511)

***Rhoddwyd ateb ar 12 Hydref 2010***

Cyhoeddodd y Pwyllgor ar Wenwyndra Cemegion mewn Bwyd, Cynnyrch Defnyddwyr a'r Amgylchedd (COT) ddatganiad ar safleoedd tirlenwi ym mis Medi 2010 gan ddod i'r casgliad canlynol: "found no causes for concern for the health of families with infants or for couples who live in the vicinity of landfill sites and who are considering having a baby".
Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn monitro cemegion ar ffiniau safleoedd tirlenwi. Nododd ei gwaith: "the levels at which most of the measured substances were found would not be expected to cause developmental or other chronic health effects, and there were no major concerns in relation to any findings".
Mae COT o'r farn na fyddai fawr ddim gwerth cynnal astudiaethau pellach ar y cysylltiad rhwng canlyniadau andwyol ar iechyd a safleoedd tirlenwi gan nad yw canfyddiadau presennol yn nodi unrhyw ganlyniadau nac amlygiadau iechyd sy'n haeddu ymchwiliad pellach.